oni heuir ni feoir

YSGOL BRO TEIFI

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

2017-2018

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

Braf ydy derbyn y cyfle hwn i fynegi rhai sylwadau at Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol. Llynedd oedd ail flwyddyn yr ysgol ac fel Cadeirydd, yr wyf yn ymfalchïo yn llwyddiannau niferus y disgyblion a'r staff.

Y mae niferoedd y disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol yn cynyddu, gan fynd o 745 o ddisgyblion pan agorwyd yr ysgol i 899 erbyn Medi 2018. Y mae hyn yn dyst i lwyddiant holl ymdrechion y staff ar draws yr ystod oed wrth baratoi profiadau diddorol a buddiol i'r disgyblion, boed yn academaidd neu yn allgyrsiol.

Braf nodi llwyddiant nodedig disgyblion blwyddyn 13 eleni eto. Safodd 39 disgybl eu harholiadau Safon Uwch yn Haf 2018 a dyfarnwyd 98% o raddau A*-E, 86.3% o raddau A*-C a 29% o raddau A*-A. Llwyddodd 100% o'r disgyblion yn y Fagloriaeth Gymreig, gyda 85% o'r graddau yn A*-B. Dymuna'r Pennaeth longyfarch yr holl ddisgyblion a dymuna bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau TGAU yr ysgol eleni, rhaid diolch i'r athrawon, y disgyblion a'u rhieni am eu gwaith diflino i sicrhau llwyddiant i'r ysgol. O'r 58 o ddisgyblion a safodd yr arholiadau TGAU, enillodd 100% gymwysterau cyfatebol i 5A*-G. O'r graddau a ddyfarnwyd, roedd 78.1% ohonynt yn raddau A*-C a 27.8% yn raddau A*-A. Llwyddodd 93% o'r disgyblion yn y Fagloriaeth Gymreig, gyda phob un ohonynt yn llwyddo ar radd C neu'n uwch, a 44% o'r graddau yn rhai A*-A.

Bu'r llywodraethwyr yn cymryd rôl fwy blaenllaw ym mywyd yr ysgol wrth ymweld yn rheolaidd, yn trafod gyda disgyblion a staff, yn craffu ar eu gwaith, yn cynnal teithiau dysgu ac yn mynychu cyfarfodydd staff. Drwy hyn, yr ydym yn cynyddu ein dealltwriaeth o'r gwaith oddi fewn dosbarthiadau ac am y safonau uchel y mae'r disgyblion yn eu cyrraedd ymhob maes. Yn ogystal, y mae'r Corff Llywodraethol yn cael trosolwg manwl o fywyd ysgol drwy'r adroddiadau a'r cyflwyniadau a gyflwynir yn ein cyfarfodydd tymhorol.

Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd pob llwyddiant a braf ydy gweld Cyfeillion Ysgol Bro Teifi wedi sefydlu llynedd ac yn mynd o nerth i nerth. Wrth edrych tuag at y dyfodol, y mae'r Llywodraethwyr yn falch wrth i'r ysgol ddyfnhau'r cydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth gan ddod yn ganolfan hyfforddi darpar athrawon. Drwy hyn, bydd yr ysgol yn medru dylanwadu ar y to newydd o athrawon yma yng Ngorllewin Cymru.

Wrth gloi, dymunaf ddiolch i'm cyd-lywodraethwyr am eu gwaith caled yn cefnogi Pennaeth, staff a disgyblion yr ysgol. Carwn hefyd, ar ran fy nghyd lywodraethwyr, ddiolch yn ddiffuant i Mrs Rhian Jardine am ei gwaith fel Cadeirydd y Corff Cysgodol ac yna yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Bro Teifi am y ddwy flynedd ddiwethaf. Gwnaeth gyfraniad allweddol yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gywir,

Mr Gethin Jones (Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Teifi)

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2017-2018

ADRAN 1 – CRYNODEB O'R ADRODDIAD

1. **Hysbyseb o Gyfarfod Blynyddol Rhieni/Llywodraethwyr i ddod** *(os caiff ei gynnal o dan Adran 94 o Ddeddf Trefniadaeth Safonau Ysgolion (Cymru) 2013): Ddim yn berthnasol

2. **Gwybodaeth am seddi gwag Rhieni Llywodraethwyr / etholiadau sydd i ddod:**

Nifer y seddi gwag ar gyfer Rhiant Lywodraethwyr presennol	0
Dyddiad(au) o sedd(i) (g)wag ar gyfer Rhiant Lywodraethwr	

3. **Data Cymharol Disgyblion Oed Cynradd:**

CYFNOD SYLFAEN

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)

		N	D	W	1	2	3	4	5	6	A
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.9	85.1	0.0
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.3*	*0.2*	*0.4*	*0.9*	*3.1*	*33.3*	*61.2*	*0.1*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	55.3	40.4	0.0
	Cymru	*0.0*	*0.2*	*0.1*	*0.1*	*0.2*	*0.9*	*7.7*	*52.8*	*38.0*	*0.0*
Datblygiad mathemategol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	51.1	44.7	0.0
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.3*	*0.2*	*0.3*	*1.3*	*7.2*	*51.5*	*38.6*	*0.1*

DCS **

Ysgol	95.7
Cymru	*87.3*

(Tabl 2 o 2 - NIFEROEDD DISGYBLION)

	N	D	W	1	2	3	4	5	6	A
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	0	0	0	0	0	0	0	7	40	0
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)	0	0	0	0	0	0	2	26	19	0
Datblygiad mathemategol	0	0	0	0	0	0	2	24	21	0

DCS **

Ysgol	45

Nifer y disgyblion = 47

CYFNOD ALLWEDDOL 2

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	4+
Saesneg	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.7	33.3	59.0	0.0	92.3
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.5*	*1.6*	*6.8*	*48.4*	*40.6*	*1.4*	*90.3*
Llafaredd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.6	35.9	61.5	0.0	97.4
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.5*	*1.4*	*6.9*	*47.1*	*41.7*	*1.7*	*90.5*
Darllen	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.7	33.3	59.0	0.0	92.3
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.5*	*1.5*	*7.5*	*46.4*	*41.6*	*1.7*	*89.7*
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	15.4	30.8	53.8	0.0	84.6
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.5*	*2.0*	*11.3*	*51.5*	*32.5*	*1.3*	*85.4*
Cymraeg Iaith Gyntaf	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.6	5.1	38.5	53.8	0.0	92.3
	Cymru	-	*0.2*	-	*0.0*	*0.0*	*0.3*	*1.2*	*7.4*	*52.8*	*36.6*	*1.4*	*90.8*
Llafaredd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.6	2.6	41.0	53.8	0.0	94.9
	Cymru	-	*0.2*	-	*0.0*	*0.0*	*0.3*	*1.1*	*6.4*	*51.4*	*39.1*	*1.5*	*92.0*
Darllen	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.6	5.1	38.5	53.8	0.0	92.3
	Cymru	-	*0.2*	-	*0.0*	*0.0*	*0.3*	*1.3*	*8.3*	*50.7*	*37.4*	*1.7*	*89.8*
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	2.6	10.3	43.6	43.6	0.0	87.2
	Cymru	-	*0.2*	-	*0.0*	-	*0.3*	*1.6*	*12.3*	*55.5*	*28.8*	*1.2*	*85.5*
Mathemateg	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.7	38.5	53.8	0.0	92.3
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.4*	*1.4*	*6.5*	*47.8*	*41.5*	*1.6*	*91.0*
Gwyddoniaeth	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.7	38.5	53.8	0.0	92.3
	Cymru	*0.1*	*0.4*	*0.1*	*0.1*	*0.1*	*0.4*	*1.3*	*5.8*	*49.2*	*42.3*	*0.2*	*91.7*

Dangosydd Pwnc Craidd **

Ysgol	92.3
Cymru	*88.6*

CYFNOD ALLWEDDOL 2

	N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	Nifer y disgyblion
Saesneg	0	0	0	0	0	0	0	3	13	23	0	39
Llafaredd	0	0	0	0	0	0	0	1	14	24	0	39
Darllen	0	0	0	0	0	0	0	3	13	23	0	39
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	0	0	6	12	21	0	39
Cymraeg Iaith Gyntaf	0	0	0	0	0	0	1	2	15	21	0	39
Llafaredd	0	0	0	0	0	0	1	1	16	21	0	39
Darllen	0	0	0	0	0	0	1	2	15	21	0	39
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	0	1	4	17	17	0	39
Mathemateg	0	0	0	0	0	0	0	3	15	21	0	39
Gwyddoniaeth	0	0	0	0	0	0	0	3	15	21	0	39

Dangosydd Pwnc Craidd **

Ysgol	36

Nifer y disgyblion = 39

4. Data Perfformiad Disgyblion Oed Uwchradd:

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)

		1	2	3	4	5	6	7	8	EP	5+
Saesneg	Ysgol	0.0	1.3	0.0	7.9	22.4	32.9	35.5	0.0	0.0	90.8
	Cymru	*0.4*	*0.6*	*1.8*	*6.0*	*31.8*	*38.0*	*19.0*	*1.6*	*0.1*	*90.5*
Llafaredd	Ysgol	0.0	1.3	1.3	6.6	18.4	36.8	35.5	0.0	0.0	90.8
	Cymru	*0.4*	*0.6*	*1.7*	*6.9*	*31.0*	*37.3*	*19.1*	*2.2*	*0.1*	*89.6*
Darllen	Ysgol	0.0	1.3	1.3	9.2	28.9	25.0	34.2	0.0	0.0	88.2
	Cymru	*0.4*	*0.7*	*1.9*	*7.4*	*31.6*	*37.5*	*18.0*	*1.7*	*0.1*	*88.9*
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	1.3	0.0	5.3	26.3	34.2	32.9	0.0	0.0	93.4
	Cymru	*0.4*	*0.7*	*2.3*	*11.3*	*33.8*	*34.0*	*15.3*	*1.4*	*0.1*	*84.5*
Cymraeg Iaith Gyntaf	Ysgol	0.0	1.3	0.0	3.9	30.3	50.0	13.2	1.3	0.0	94.7
	Cymru	*0.0*	*0.2*	*0.7*	*5.4*	*30.6*	*43.2*	*18.0*	*1.7*	*0.1*	*93.5*
Llafaredd	Ysgol	0.0	1.3	0.0	1.3	27.6	50.0	18.4	1.3	0.0	97.4
	Cymru	*0.0*	*0.2*	*0.6*	*5.1*	*28.4*	*44.0*	*19.3*	*2.0*	*0.1*	*93.8*
Darllen	Ysgol	0.0	1.3	0.0	6.6	28.9	48.7	14.5	0.0	0.0	92.1
	Cymru	*0.0*	*0.2*	*0.9*	*6.6*	*30.3*	*42.0*	*18.2*	*1.7*	*0.1*	*92.2*
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	1.3	0.0	14.5	23.7	48.7	10.5	1.3	0.0	84.2
	Cymru	*0.0*	*0.2*	*1.2*	*10.2*	*37.1*	*37.2*	*12.4*	*1.5*	*0.1*	*88.2*
Mathe-mateg	Ysgol	0.0	1.3	0.0	3.9	25.0	38.2	30.3	1.3	0.0	94.7
	Cymru	*0.4*	*0.6*	*1.9*	*5.6*	*25.4*	*34.7*	*26.8*	*3.9*	*0.1*	*90.8*
Gwydd-oniaeth	Ysgol	0.0	1.3	0.0	1.3	18.4	51.3	27.6	0.0	0.0	97.4
	Cymru	*0.4*	*0.4*	*1.0*	*3.9*	*28.0*	*39.1*	*25.0*	*1.4*	*0.1*	*93.5*

Dangosydd Pwnc Craidd **

Ysgol	92.1
Cymru	*87.4*

		1	2	3	4	5	6	7	8	EP	5+
Iaith Dramor Fodern	Ysgol	0.0	0.0	0.0	13.2	27.6	27.6	28.9	0.0	0.0	84.2
	Cymru	*0.5*	*0.6*	*2.0*	*7.1*	*31.3*	*36.6*	*18.0*	*0.7*	*0.1*	*86.7*
Dylunio a Thechnoleg	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	34.2	48.7	17.1	0.0	0.0	100.0
	Cymru	*0.3*	*0.4*	*0.9*	*4.0*	*30.8*	*43.2*	*18.5*	*0.8*	*0.0*	*93.3*
TGCh	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	7.9	73.7	18.4	0.0	0.0	100.0
	Cymru	*0.3*	*0.4*	*0.9*	*3.5*	*27.2*	*43.9*	*22.1*	*0.7*	*0.0*	*93.9*
Hanes	Ysgol	0.0	0.0	1.3	0.0	17.1	46.1	34.2	1.3	0.0	98.7
	Cymru	*0.3*	*0.5*	*1.0*	*5.0*	*28.9*	*38.9*	*22.0*	*2.0*	*0.1*	*91.9*
Daearyddiaeth	Ysgol	0.0	0.0	1.3	1.3	23.7	44.7	27.6	1.3	0.0	97.4
	Cymru	*0.3*	*0.5*	*1.0*	*5.0*	*29.6*	*38.3*	*21.6*	*2.3*	*0.2*	*92.0*
Celf a Dylunio	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	23.7	36.8	39.5	0.0	0.0	100.0
	Cymru	*0.2*	*0.4*	*0.8*	*3.8*	*31.3*	*39.4*	*20.5*	*2.4*	*0.1*	*93.6*
Cerddoriaeth	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	23.7	48.7	27.6	0.0	0.0	100.0
	Cymru	*0.5*	*0.3*	*0.6*	*3.9*	*35.7*	*41.5*	*13.9*	*1.9*	*0.3*	*93.3*
Addysg Gorfforol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	2.6	18.4	52.6	26.3	0.0	0.0	97.4
	Cymru	*0.3*	*0.3*	*0.7*	*4.2*	*35.7*	*39.6*	*16.1*	*1.9*	*0.1*	*93.3*

Cyfnod Allweddol 3

	1	2	3	4	5	6	7	8	EP	Nifer y disgyblion
Saesneg	0	1	0	6	17	25	27	0	0	76
Llafaredd	0	1	1	5	14	28	27	0	0	76
Darllen	0	1	1	7	22	19	26	0	0	76
Ysgrifennu	0	1	0	4	20	26	25	0	0	76
Cymraeg Iaith Gyntaf	0	1	0	3	23	38	10	1	0	76
Llafaredd	0	1	0	1	21	38	14	1	0	76
Darllen	0	1	0	5	22	37	11	0	0	76
Ysgrifennu	0	1	0	11	18	37	8	1	0	76
Mathemateg	0	1	0	3	19	29	23	1	0	76
Gwyddoniaeth	0	1	0	1	14	39	21	0	0	76

Dangosydd Pwnc Craidd **

Ysgol	70

Nifer y disgyblion = 76

	1	2	3	4	5	6	7	8	EP	Nifer y disgyblion
Cymraeg Ail Iaith	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Iaith Dramor Fodern	0	0	0	10	21	21	22	0	0	76
Dylunio a Thechnoleg	0	0	0	0	26	37	13	0	0	76
TGCH	0	0	0	0	6	56	14	0	0	76
Hanes	0	0	1	0	13	35	26	1	0	76
Daearyddiaeth	0	0	1	1	18	34	21	1	0	76
Celf a Dylunio	0	0	0	0	18	28	30	0	0	76
Cerddoriaeth	0	0	0	0	18	37	21	0	0	76
Addysg Gorfforol	0	0	0	2	14	40	20	0	0	76

CYFNOD ALLWEDDOL 4

Disgyblion yn blwyddyn 11

Nifer y disgyblion yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 58

Canran y disgyblion yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog 8 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2017/18	100	100	76	62	29	397	361
Ardal ALl 2017/18	99	95	75	59	22	375	343
Cymru 2017/18	99	94	67	55	18	350	320
Ysgol 16/17/18	100	100	87	74	27	270	376
Ysgol 15/16/17	100	100	91	71	27	134	377

Nifer y bechgyn yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018: 27

Canran y bechgyn yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog 8 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2017/18	100	100	59	52	22	379	343
Ardal ALl 2017/18	100	94	71	55	20	367	336
Cymru 2017/18	99	92	61	50	14	336	307
Ysgol 16/17/18	100	100	80	70	19	280	367
Ysgol 15/16/17	100	99	88	65	19	149	368

Nifer y merched yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 31

Canran y merched yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog 8 fesul disgybl wedi'i chapio (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2017/18	100	100	90	71	35	412	376
Ardal ALl 2017/18	99	96	80	62	25	382	349
Cymru 2017/18	99	95	73	61	22	365	334
Ysgol 16/17/18	100	100	94	78	35	260	385
Ysgol 15/16/17	100	100	95	78	36	115	387

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler gwefan Cymwysterau Cymru (QiW) http://www.qiw.wales/

(2) Cyfrifir y sgôr pwyntiau 9 / 8 wedi'I chapio gan ddefnyddio y 9 / 8 canlyniad gorau ond rhaid cynnwys rhai pynciau penodol. Gweler y nodiadau am rhagor o fanylion.

.. Data ddim ar gael.

Disgyblion yn blwyddyn 11

Nifer y disgyblion yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018 : 58

Canran y disgyblion yn blwyddyn 11 a:

	ennillodd A *-C mewn :							
	Saesneg/ Cymraeg	Saesneg	Cymraeg (2)	Gwyddoni aeth	Mathem ateg	Mathem ateg - Rhifedd	Gorau o Fathemateg	Dangosy dd Pynciau Craidd (3)
Ysgol 2017/18	88	74	88	76	62	59	62	62
Ardal ALl 2017/18	72	66	77	73	61	65	68	57
Cymru 2017/18	65	63	74	63	59	58	64	53
Ysgol 16/17/18	90	77	89	93	45	43	46	74
Ysgol 15/16/17	85	77	90	98	23	22	24	71

Nifer y bechgyn yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2017 : 27

Canran y bechgyn yn blwyddyn 11 a:

	ennillodd A *-C mewn :							
	Saesneg/ Cymraeg	Saesneg	Cymraeg (2)	Gwyddoni aeth	Mathem ateg	Mathem ateg - Rhifedd	Gorau o Fathemateg	Dangosy dd Pynciau Craidd (3)
Ysgol 2017/18	74	56	74	67	52	52	52	52
Ardal ALl 2017/18	61	54	69	72	62	67	69	55
Cymru 2017/18	56	54	65	60	57	58	62	48
Ysgol 16/17/18	83	64	82	91	46	45	47	70
Ysgol 15/16/17	77	64	87	98	26	26	27	64

Nifer y merched yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2017 : 31

Canran y merched yn blwyddyn 11 a:

	ennillodd A *-C mewn :							
	Saesneg/ Cymraeg	Saesneg	Cymraeg (2)	Gwyddoni aeth	Mathem ateg	Mathem ateg - Rhifedd	Gorau o Fathemateg	Dangosy dd Pynciau Craidd (3)
Ysgol 2017/18	100	90	100	84	71	65	71	71
Ardal ALl 2017/18	81	77	83	73	60	62	66	60

Cymru 2017/18	74	72	83	66	61	58	65	58
Ysgol 16/17/18	97	91	98	95	45	40	45	78
Ysgol 15/16/17	95	93	96	98	20	18	20	78

(1) I gael manylion ar gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler gwefan Cymwysterau Cymru (QiW) http://www.qiw.wales/

(2) Nodwch mai enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion yn blwyddyn 11 a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion yn blwyddyn 11.

(3) O 2017 ymlaen nid yw Llenyddiaeth Cymraeg a Saesneg yn cyfri yn y Dangosydd Pynciau Craidd

.. Data ddim ar gael.

5. Ffigurau Presenoldeb – Blwyddyn Academaidd 2017- 2018

	Presenoldeb	Absenoldeb awdurdodedig			Absenoldebau Anawdurdodedig		
		Merched	Bechgyn	Cyfanswm	Merched	Bechgyn	Cyfan-swm
Cynradd	95.0	3.9	3.8	3.8	1.4	1.0	1.2
Uwchradd	94.8	4.3	5.0	4.6	0.6	0.7	0.6
Ffês 1	95.1	3.9	3.7	3.8	1.2	1.0	1.1
Ffês 2	95.0	4.0	4.2	4.1	1.0	0.7	0.9
Ffês 3	94.3	4.6	5.4	5.0	0.5	0.9	0.7
Ysgol Gyfan	94.8	4.2	4.6	4.4	0.9	0.8	0.8

Gwerthusiad o Bresenoldeb:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd ychydig o gwymp yn y canran presenoldeb am y flwyddyn ymysg disgyblon oed cynradd ac oed uwchradd. Ymysg disgyblion oed Cynradd, syrthiodd y canran presenoldeb 0.2% o'i gymharu a 2016-17. Fodd bynnag, cofnodwyd cynnydd o 0.2% yn yr achosion o wyliau a gymerwyd yn 2017-18 o'i gymharu a 2016-17 sydd yn rhoi cyfrif am y gostyngiad.

Ymysg disgyblion oed Uwchradd, gwelwyd cwymp o 0.6% yn y lefel presenoldeb o'i gymharu a'r flwyddyn flaenorol (94.8% o'i gymharu a 95.4%). Er i hyn eto gael ei ddylanwadu yn rhannol gan gynnydd mewn disgyblion yn mynd ar wyliau adeg tymor, roedd cynnydd nodedig hefyd yn yr achosion o salwch a gofnodwyd ymysg y bechgyn a'r merched. Mae'r ysgol yn gofyn am dystiolaeth meddygol pan fo patrwm absenoldeb anghyson neu absenoldeb hir-dymor o ganlyniad i salwch. Mae methu cyflwyno'r dystiolaeth yma yn aml yn arwain at absenoldebau yn cael eu cofnodi heb ganiatâd.

Er gwelwyd lleihad yn y nifer o ddisgyblion yn y band presenoldeb o dan 80%, roedd mwy o achosion o salwch byr dymor ymysg disgyblion wedi arwain at gynnydd yn y bandiau 80%-94.99%. Amlygai hyn taw nid problemau o absenoldebau cyson oedd prif yrrwr y gostyngiad mewn presenoldeb ond yn hytrach, niferoedd uchel o absenoldebau o ganlyniad i salwch.

Mae'n bolisi ysgol i beidio a chaniatáu gwyliau adeg tymor oni bai mewn amodau eithriadol iawn. Mae caniatáu unrhyw gyfnod o'r ysgol at ddisgresiwn y Pennaeth.

6. Darpariaeth chwaraeon yn yr Ysgol a'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol:

Cafwyd flwyddyn lwyddiannus arall ym myd chwaraeon Bro Teifi eleni. Unwaith eto, gwelwyd yr ysgol yn cystadlu ar lefel sirol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn amryw feysydd.

Bu disgyblion oed cynradd yn cystadlu ymhob cystadleuaeth chwaraeon yr Urdd eleni – gymnasteg, gala nofio, pêl rwyd, pêl droed, rygbi a thrawsgwlad.

Cafwyd llwyddiant yn nghystadleuaeth y gala nofio yr Urdd gyda Dafydd Jones a Cadi Rees yn cynrychioli yr ysgol ar lefel Cenedlaethol. Dafydd Jones yn cipio'r drydedd wobr yn y ras rhydd a'r ras cefn i fechgyn bl 6.

Chwaraewyd gemau llwyddiannus iawn o hoci a phêl-rwyd o flynyddoedd 7-13 drwy'r flwyddyn, gyda'r tîm pêl-rwyd dan 18 a'r tîm hoci dan 16 yn cynrychioli Ceredigion yn nhwrnameintiau Gorllewin Cymru, gyda'r tîm hoci yn dod yn ail.

Gwnaeth dîm pêl-droed merched dan 13 gyrraedd rownd gynderfynol Cwpan Ysgolion Cymru. Teithiwyd i fyny i Ysgol Glan Clwyd ym mis Mawrth, a chwarae gêm galed ond colli fu yr hanes. Gyda mwyafrif y tîm yn gymwys i chwarae y flwyddyn nesaf eto, mae gobaith yn uchel am lwyddiant unwaith eto. Cyrhaeddodd y tîm bechgyn dan 12 y 16 olaf yng nghwpan ysgolion Cymru hefyd, gan golli i Ysgol Brynrefail mewn gêm cystadleuol. Mae Grace Morris wedi chwarae i dîm Dan 15 pêl-droed Cymru, ac yn hyfforddi gyda thîm Dan 17 Cymru yn wythnosol.

Cafwyd flwyddyn dda o rygbi hefyd. Roedd timoedd rygbi blwyddyn 7, 8, 9, 11 a hŷn yr ysgol yn Bencampwyr Ceredigion. Gwnaeth y tîm rygbi hŷn gyrraedd rownd 16 olaf cwpan Cymru, a'r timoedd rygbi blwyddyn 8 a 9 y rownd 32 olaf cwpan Cymru. Gwnaeth tîm rygbi hŷn yr ysgol hefyd gyrraedd rownd cyn derfynol cwpan rhanbarthol Scarlets. Cafodd 10 o fechgyn blwyddyn 10 y fraint o gynrychioli'r sir yng ngêm derfynol Bowlen L Miller yn Stadiwm Principality, sef Ifan Bryant, Tomos James, Arwel Williams, Steffan Thomas, Dion Jones, Sion James, Tom Davies, Bleddyn Morgan, Aled Sion Davies a Dylan Davies. Gwnaeth dîm rygbi merched Dan 15 gynrychioli rhanbarth y Sgarlets yn nhwrnamaint ym Mharc yr Arfau Caerdydd ym mis Ebrill, ac yna cael y cyfle i chwarae yn ffeinal yn stadiwm y mileniwm. Er collwyd y gêm roedd y merched wedi cael diwrnod i'w gofio, ac yn falch i ddweud eu bod yn ail yng Nghymru. Mae Elis Rees Lewis wedi ei ddewis i dîm Dan 16 y Sgarlets a Tomos James blwyddyn 10 wedi cynrychioli tîm gorllewin y Sgarlets dan 16. Cafodd Steffan Evans blwyddyn 8 ei ddewis i ymarfer gyda thîm dan 15 rygbi cyffwrdd Cymru, a Steffan Owen Evans blwyddyn 12 ei ddewis i ymarfer gyda phrif dîm dynion Cymru rygbi cyffwrdd. Mae Kester Adams blwyddyn 12 wedi bod yn ymarfer gyda thîm bechgyn dan 18 Cymru yn ogystal. Ar ddiwedd y flwyddyn gwnaeth tîm rygbi 7 pob ochr bechgyn blwyddyn 9 ennill y fowlen yng nghystadleuaeth genedlaethol yr Urdd.

Mae nifer o ddisgyblion wedi bod yn cynrychioli'r ysgol a'r sir yn rhedeg trawsgwlad. Daeth Heledd Jones (Bl 10) yn 9fed yng nghystadleuaeth Dyfed yn Ionawr, ac yn 37ain yng nghystadleuaeth Cymru.

Unwaith eto eleni aeth ein dawnswyr creadigol i gynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod yr Urdd. Er na chafwyd llwyfan mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn, gwnaeth y merched gael budd mawr o'r profiad unwaith eto.

Mae'r clybiau ffitrwydd amser cinio ac ar ôl ysgol yn tyfu yn wythnosol. Gwnaeth y clwb ffitrwydd i ferched godi dros £1000 i 'Plant mewn Angen' drwy wneud 'rhwyfathon' am 12 awr ym mis Tachwedd.
Bu nifer o'n hathletwyr yn llwyddiannus ym mabolgampau Ceredigion, gyda nifer o ddisgyblion yn cynrychioli Ceredigion ym Mehefin, ym Mabolgampau Dyfed, yng Nghaerfyrddin. Daeth ein timau dan 13 bechgyn a merched yn 3ydd ym Mabolgampau Cwpan NASUWT.

Cafwyd cwrs sgïo llwyddiannus arall eleni i Serre Chavalier yn Ffrainc.

ADRAN 2 – ADRODDIAD BLYNYDDOL LLAWN

1. Aelodaeth y Corff Llywodraethol

Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn gyfredol:	Mr Gareth Jones
Is-Gadeirydd am y flwyddyn gyfredol:	Mrs Lynsey Thomas
Llywodraethwr a Chyfrifoldeb Dros Amddiffyn Plant	Mrs Lynsey Thomas

Aelodaeth y Corff Llywodraethol:

ENW	SWYDDOGAETH	DYDDIAD GORFFEN
Mr Bleddyn Davies	ALl	01/09/2020
Mr Phil Ainsworth	ALl	01/09/2020
Cyng. Keith Evans	ALl	09/05/2021
Cyng. Ken Howell	ALl	01/09/2020
Cyng. Wyn Thomas	ALl	09/05/2021
Mrs Diana Davies	Rhiant	16/09/2020
Rev Gareth Reid	Rhiant	16/09/2020
Mrs Lynsey Thomas	Rhiant	16/09/2020
Miss Llinos Dafydd	Rhiant	16/09/2020
Mr Gareth Jones	Rhiant	16/09/2020
Mrs Rhian Jardine	Cymunedol	01/09/2020
Mr Gerwyn James	Cymunedol	01/09/2020
Cllr Eileen Curry	Cymunedol	19/09/2020
Mr Gethin Jones	Cymunedol	01/09/2020
Miss Carys Williams	Athrawes	19/09/2020
Mrs Nia Lloyd-Evans	Athrawes	20/09/2020
Mrs Delyth Evans	Staff	09/10/2022
Mr Robert Jenkins	Pennaeth	

Clerc i'r Corff Llywodraethol:

Mrs Angela Jones
Rheolwr Gwasanaethau Cleient Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3U

2. Datganiad Ariannol Llawn ar gyfer y flwyddyn flaenorol

Costau'r Gweithwyr	£2,947,665
Costau'r Adeilad	£295,372
Costau Cludiant	£18,308
Nwyddau a Gwasanaethau	£487,127
Gwariant Gros	£3,748,833
Incwm	-£231,107
Gwariant Net	**£3,517,726**
Ariannu yn ôl Fformiwla 16/17	£3,556,358
Gweddill c/d 1 Ebrill 2017	£249,287
Cyfanswm	**£3,805,645**
Cyfanswm Arian Wrth Gefn	£287,919

3. Defnydd y Grant Datblygu Disgyblion

Yn 2017-18 rhoddwyd i Ysgol Bro Teifi ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar o £58,000.

Mae gennym gynllun cynhwysfawr, sy'n cael ei fonitro gan Awdurdod Lleol Ceredigion, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Targedu ymyrraeth ar gyfer hyrwyddo lles a medrau allweddol disgyblion
- Datblygiad Proffesiynol
- Cefnogi Rolau Penaethiaid Ffês
- Cyfoethogi profiadau allwgricwlaidd

4. Cyrchfannau y Disgyblion sydd yn ymadael

Ysgolion Cynradd:

Nifer y Disgyblion sydd yn gadael ar gyfer Ysgol Uwchradd ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd flaenorol:	47

Yr Ysgol(ion) Uwchradd a'r nifer sydd yn mynychu:	Ysgol Bro Teifi	45	Ysgol Emlyn	1	Eraill	1

Ysgolion Uwchradd:

Nifer y Disgyblion sydd yn gadael ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd flaenorol:	40
Nifer y Disgyblion sydd yn gadael am:	
Prifysgol	31/40 (77.5%)
Prentisiaeth	1/40 (2.5%)
Coleg	4/40 (10%)
Gweithio	2/40 (5%)
Cam wrth Gam	2/40 (5%)

5. Cysylltiadau gyda'r Gymuned

Mae ein hysgol yn chwarae rhan bwysig iawn yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys cymuned yr ysgol, y gymuned ble lleolir yr ysgol ynghyd a gweddill Cymru a thramor. Yn ogystal, y mae'r ysgol wedi bod yn rhan o rwydweithiau proffesiynol lle rhoddir pwyslais ar gydweithio gydag ysgolion eraill ar brosiectau penodol ee Rhwydwaith Ysgolion 3-19 Cymru er datblygu gwell dealltwriaeth o arfer orau yn y sector. Rydym yn sicrhau fod cwricwlwm ac ethos yr ysgol yn hybu'r syniad o hunaniaeth a chefnogi amrywiaeth, gan ddangos i'r disgyblion y gall gwahanol gymunedau weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu cymdeithas lwyddiannus ee ymweliadau i wledydd tramor fel ymweliadau i Unol Daleithiau America a Gwlad yr Iâ. Drwy wneud hyn mae'r ysgol yn hyrwyddo:

- Datblygu partneriaethau er mwyn rhannu arfer dda ac i gynnig cyfleoedd i'n disgyblion ddysgu oddi wrth ddisgyblion o gefndiroedd tra gwahanol.
- Cysylltiadau gyda chynlluniau gwaith sy'n bodoli eisoes, gyda disgyblion yn gweithio ar brosiectau ar y cyd.
- Defnyddio adnoddau ar y cyd gan roi cyfleoedd i wahanol ddisgyblion i ryngweithio.
- Cysylltiadau gydag ysgolion tu allan i'r gymuned leol.

Mae cysylltiadau eraill o fewn ein cymuned yn cynnwys:

- Gwasanaethau brys – sesiynau gan Swyddogion Cymunedol yr Heddlu sy'n cynnwys cyffuriau ac alcohol, defnydd diogel o'r we, diogelwch ar y fferm, diogelwch glan môr a gweithdy gan y Frigâd Dân.
- Cysylltiadau gyda rhieni – ee cynorthwyo gyda'r mabolgampau cynradd, sefydlu a rhedeg Cyfeillion Ysgol Bro Teifi gweithgar ayyb.
- Cysylltiadau gyda sefydliadau addysgiadol megis ysgolion y clwstwr, Cylch Meithrin, Coleg Ceredigion, Erw, Prifysgol Aberystwyth, Gelli Aur ayyb.
- Ymweliadau addysgiadol: Amgueddfa Wlân Drefach, Pentrebach ayyb.
- Cysylltiadau gyda'r celfyddydau – Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro, Eisteddfod yr Urdd, Arad Goch, Cwmni Theatr Pandemonium, ayyb.
- Ymweliad ag adeiladau yn ein cymuned – eglwysi, capeli, cartrefi hen bobl, llyfrgell ayyb.

6. Targedau ar gyfer gwelliant a osodwyd gan y Corff Llywodraethol

Blaenoriaeth 1 – Cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg a hybu Cymreictod

Blaenoriaeth 2 – Gwella perfformiad carfannau o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion PYD a MAT

Blaenoriaeth 3 – Gwella safonau cymhwysedd digidol ar draws yr ysgol

Blaenoriaeth 4 – Parhau i ddatblygu cwricwlwm cyfoethog ar draws y Cyfnod Sylfaen

Blaenoriaeth 5 – Parhau i wella cwricwlwm cyfnodau allweddol 2 a 3

Blaenoriaeth 6 – Cryfhau prosesau olrhain cynnydd, yn enwedig ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 5

Blaenoriaeth 7 – Parhau i wella arweinyddiaeth ar bob lefel

Blaenoriaeth 8 – Sicrhau cyfraniad effeithiol gan y Corff Llywodraethwyr

7. Polisïau / Strategaethau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol:

O ganlyniad i sefydlu Ysgol Bro Teifi o'r newydd ym Medi 2016, mabwysiadodd y Corff Llywodraethol yr holl bolisïau a dogfennaeth strategol angenrheidiol yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod 2017-2018, mabwysiadwyd y polisïau a chanllawiau canlynol:

- Polisi Cludiant cartref i Ysgol
- Polisi Derbyn Disgyblion 2018-2019
- Canllaw trawsryweddol Ysgolion Ceredigion
- Model Polisi Cyflogau Athrawon Digyswllt 2017-2018
- Model Polisi Cyflogau Athrawon 2017-2018

- DBS/Polisi Recriwtio Diogel
- Polisi Anghenion Gofal Iechyd
- Polisi Urddas yn y gwaith
- Cytundeb Partneriaeth Ysgolion 2018-2021
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Strategaeth Hygyrchedd
- Lwfansau Llywodraethwyr
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

8. Dyddiadau Tymor ac Amser Sesiynau

TYMOR YR HYDREF		
04.09.18	hyd	21.12.18
Hanner Tymor – 29.10.18-2.11.18		
Dyddiadau Cau i Ddisgyblion		
3.9.18		
26.10.18		
Gwyliau Nadolig 24.12.18 – 04.01.19		

TYMOR Y GWANWYN		
07.01.19	hyd	12.04.18
Hanner Tymor – 25.02.19-01.03.19		
Dyddiadau Cau i Ddisgyblion		
22.02.19		
Gwyliau Pasg 15.04.19 – 26.04.19		

TYMOR YR HAF		
30.04.19	Hyd	19.07.19*
Hanner Tymor – 27.05.19-31.05.19		
Dyddiadau Cau i Ddisgyblion		
29.04.19		
Ysgol ar gau		
06.05.19 (Gŵyl y Banc*)*		
Gwyliau Haf 23.07.19 – 30.08.19 (yn gynwysedig)		

**** Bydd yr ysgol yn cau i ddisgyblion ar ddydd Gwener, 19 Gorffennaf 2019***

Nodwch, os gwelwch yn dda, fod y calendr hwn yn amodol ar unrhyw newidiadau o ganlyniad i bolisïau Cyngor Sir Ceredigion. Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am golledion mewn perthynas â threfniadau gwyliau o ganlyniad i'r fath newidiadau.

9. Newidiadau i Brosbectws yr Ysgol ers llynedd

Ni fu newidiadau i'r Prosbectws ers y llynedd.

10. Y Cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm yn sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned ein hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol. Mae ein cwricwlwm yn un cytbwys ac eang, ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, yn ogystal datblygu lles meddyliol a chorfforol ein disgyblion; ein nod ydy eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

O oed Meithrin hyd at ddiwedd Blwyddyn 2, bydd eich plentyn yn dilyn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn ystod y cyfnod yma mi fydd yn astudio'r meysydd canlynol:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Yng nghyfnodau Allweddol 2 a 3 (Blynyddoedd 3 i 9) bydd eich plentyn yn astudio'r pynciau canlynol:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth, Astudiaethau Crefyddol, Daearyddiaeth, Ffrangeg (o Flwyddyn 5 ymlaen), Hanes, Addysg Gorfforol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Celf, Cerdd, Drama

Yng nghyfnod allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11), mae pob disgybl yn astudio'r pynciau canlynol:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Astudiaethau Crefyddol, Chwaraeon, Bagloriaeth Cymru

Yn ogystal, gall y disgyblion ddewis o'r pynciau isod:

Addysg Gorfforol, Amaethyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol, Astudiaethau Cyfryngau, Busnes, Celf a Dylunio, Cerdd, Daearyddiaeth, Datblygiad y Plentyn, Drama, Gwyddoniaeth Driphlyg, Ffrangeg, Hamdden a Thwristiaeth, Hanes, Peirianneg, Technoleg (Bwyd a Maeth, Deunyddiau Gwrthiannol a Thecstilau), Technoleg Gwybodaeth

Yng nghyfnod allweddol 5 (Blynyddoedd 12 ac 13), gall ein disgyblion ddewis o'r pynciau canlynol:

Addysg Gorfforol, Amaethyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol, Bioleg, Busnes, Celf a Dylunio, Celf a Dylunio
(Ffotograffiaeth), Celf a Dylunio (Tecstilau), Cemeg, Cerddoriaeth, Cyfryngau, Cymraeg, Daearyddiaeth, Drama ac Astudiaethau Theatr, Dylunio a Thechnoleg, Dylunio a Thechnoleg

(Bwyd), Electroneg, Ffiseg, Ffrangeg, Gwaith Gôf, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gwyddor Feddygol, Hanes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mathemateg, Mathemateg Bellach, Peirianneg, Saesneg, Seicoleg, Teithio a Thwristiaeth, Bagloriaeth Cymru.

Darpariaeth i Ddisgyblion ADY:

Prif nod y ddarpariaeth addysg arbennig yn yr ysgol yw sicrhau bod ein holl ddisgyblion yn cyrraedd eu potensial o fewn awyrgylch cynhaliol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig yn Ysgol Bro Teifi yn ateb gofynion Côd Ymarfer Cymru. Mae pob disgybl sydd wedi ei gofnodi ar gofrestr addysg arbennig yr ysgol yn derbyn cynhaliaeth o ryw fath, naill o fewn y brif ffrwd, mewn grwpiau bychain neu cefnogaeth 1 i 1. Ymdrechwn i adnabod anawsterau dysgu yn gynnar gan ddarparu cefnogaeth effeithiol lle bo angen. Wrth i'n disgyblion ddechrau ar eu cyfnod addysg uwchradd bydd disgyblion yn cael eu hasesu yn ystod tymor y Nadolig ym Mlwyddyn 7 er mwyn sicrhau bod unrhyw blentyn sydd yn cael trafferth gyda sgiliau llythrennedd neu rifedd yn cael ei nodi ac yna yn derbyn y sylw priodol. Pan fydd disgybl yn cyrraedd safon benodedig, nid oes angen iddo fynychu'r grwpiau bellach.

Mae gan y tîm o gynorthwywyr brofiad helaeth o weithio gyda disgyblion â gwahanol broblemau megis problemau dysgu, corfforol, problemau gweledol neu glyw, ymddygiad, a.y.b. ac maent yn derbyn hyfforddiant pellach pan fydd angen. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol penodol yn cael sylw gan athrawes brofiadol yn y maes.

Yn ein hysgol, mae'r ddarpariaeth Hafan ac Encil yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn a'u hymddygiad. Mae'r Hafan ac Encil yn rhan hanfodol o weithdrefnau rheoli ymddygiad yr ysgol ac mae'r polisi hwn yn sicrhau bod gennym dealltwriaeth glir o bwrpas a gweithrediad y ddarpariaeth wrth i ni fel cymuned ysgol cefnogi anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol y disgyblion yn ein gofal.

11. Iaith

Categori Iaith yr Ysgol:	Cynradd – Cyfrwng Cymraeg Uwchradd – Dwyieithog 2A
Y Gymraeg ydy prif gyfrwng holl fywyd a gwaith Ysgol Bro Teifi gyda'r nod o sicrhau bod pob disgybl yn medru'r ddwy iaith yn drylwyr hyd at eithaf ei allu / gallu erbyn gadael yr ysgol. Mae Ysgol Bro Teifi yn gweithredu ar yr amcanion canlynol: • sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'n naturiol yn y ddwy iaith. • meithrin ymwybyddiaeth a balchder yn niwylliant, traddodiadau ac etifeddiaeth Cymru ymysg ein disgyblion a fydd yn sail i ehangu eu gorwelion, eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o gydberthynas Cymru ag Ewrop a'r byd. • galluogi ein disgyblion i gynnig am swyddi lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol neu'n fanteisiol.	

12. Cyfleusterau Toiledau (gan gynnwys trefniadau glanhau)

Mae cyfleusterau toiledau'r ysgol mewn cyflwr rhagorol ac yn cael eu glanhau'n ddyddiol gan gwmni Ultima

13. Bwyta ac Yfed Iach

Mae gennym ddull effeithiol o hyrwyddo bwyd a ffitrwydd gan ein bod yn ymwybodol bod diet a gweithgarwch corfforol yn cael effaith gadarnhaol ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol y disgyblion.

Credwn fod gennym ddyletswydd i annog pawb yn y gymuned i fyw bywydau egnïol a iach trwy ddarparu gwybodaeth a sgiliau i sefydlu a chynnal ffyrdd o fyw iachus gydol oes ynghyd ag arferion bwyta'n iach.

Rydym yn sicrhau fod y bwyd a ddarperir yn yr ysgol yn iach ac yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwersi Addysg Gorfforol o ansawdd uchel ynghyd a sesiynau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'r gegin yn cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod yr holl giniawau yn faethlon. Mae'r gegin wedi cael ei graddio fel 5 seren ar gyfer glanweithdra a hylendid.

Rydym yn annog rhieni i ddarparu bocsys bwyd a byrbrydau iach i'w plant pan fyddant yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn mabwysiadu'r canlynol i hyrwyddo ffordd iach o fyw:

- Gweithgarwch corfforol o fewn y cwricwlwm
- Nofio i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2
- Clybiau gweithgaredd corfforol allgyrsiol
- Addysg awyr agored
- Prydau ysgol
- Bwyd a maeth yn y cwricwlwm
- Clwb brecwast iach
- Llaeth ysgol am ddim i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen

DEISEB RHIENI A CHYFARFODYDD

Mae Deddf Safonau a Thrafnidiaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu trefniadau newydd sydd yn galluogi rhieni i ofyn am gyfarfod gyda'r Corff Llywodraethol. Bydd angen i rieni gyflawni pedwar gofynion statudol wrth ofyn am gyfarfod, sy'n cynnwys:

1	Dylid deiseb cael ei chyflwyno gyda llofnod 10% o ddisgyblion cofrestredig neu rieni 30 o ddisgyblion cofrestredig (pa bynnag yw'r isaf).
2	Rhaid i bwrpas y cyfarfod bod i drafod materion sy'n berthnasol i'r ysgol.
3	Uchafswm o gyfarfodydd gall rieni alw mewn blwyddyn ysgol ydy tri (3).
4	Rhaid bod digon o ddyddiau ysgol fod ar ôl mewn blwyddyn i gynnal cyfarfod.

Mae gofynion statudol ychwanegol ynghylch y cyfarfod yn cynnwys:

1	Rhaid i'r Cyfarfod cael ei gynnal o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn y deiseb.
2	Mae cyfnod y 25 diwrnod yn dechrau y diwrnod ar ôl derbyn y deiseb.
3	Os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod 25 diwrnod hwnnw yn dechrau tan y diwrnod ar ôl i'r gyfarfod arall cael ei gynnal.
4	Bydd y cyfarfodydd yn agored i holl rieni o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw berson arall caiff eu gwahodd gan y Corff Llywodraethol.
5	Rhaid i hysbysiad o gyfarfodydd i rieni gynnwys y dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a'r mater(ion) i'w trafod.

Rhaid i'r Corff Llywodraethol hysbysu'r rhieni'n flynyddol am yr hawl i gyflwyno deiseb am gyfarfod gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan Adran 94.

Am ragor o wybodaeth fanwl ar y gofyniad statudol, deisebau a gweithdrefnau am gynnal cyfarfod, dilynwch y linc hon: www.gov.wales/docs/dcells/publications/130503-statutory-guidance-parents-meetings-cy.pdf